



# Gwybodaeth gyffredinol am wiriadau gan Ymgyrchoedd a Phrosiectau

Rydym wedi rhoi'r daflen wybodaeth hon i chi gan ein bod wedi dechrau gwiriad cydymffurfio. Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth bwysig. Dylech gymryd amser i'w darllen a'i chadw'n ddiogel – efallai y bydd angen i chi gyfeirio ati yn ystod ein gwiriad.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn un o gyfes. I weld rhestr lawn o'r taflenni gwybodaeth yn y gyfes, ewch i [www.gov.uk/guidance/arweiniad-a-thaflenni-gwybodaeth-cthem](http://www.gov.uk/guidance/arweiniad-a-thaflenni-gwybodaeth-cthem) ac edrych o dan y pennawd 'Gwiriadau cydymffurfio'.

---

## Beth yw gwiriad cydymffurfio?

Rydym yn gwirio Ffurflenni Treth neu ddogfennau eraill er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn talu'r swm cywir o dreth ar yr amser iawn, a'u bod yn cael y lwfansau a'r rhyddhad treth cywir. Rydym yn galw'r gwiriadau hyn yn 'wiriadau cydymffurfio'.

Rydym yn cynnal rhai gwiriadau dros y ffôn. Os byddwn yn eich ffonio, gallwch ofyn i ni ysgrifennu atoch yn lle hynny. Mae'n rhaid cynnal rhai gwiriadau o fewn terfyn amser penodol. Gofynnwch os hoffech i ni egluro'r terfynau amser hyn i chi. Os byddwn yn dod o hyd i rywbeth sydd o'i le, efallai y byddwn yn ehangu cwmphas ein gwiriad, er enghraifft, gallwn wirio cyfnodau cynharach.

---

## Beth sy'n digwydd yn ystod gwiriad cydymffurfio?

Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi am yr hyn rydym yn ei wirio. Os gwelwn fod angen i ni ehangu cwmphas ein gwiriad, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Os ydych wedi penodi rhywun i'ch cynrychioli, gallwch ofyn i ni ddelio'n uniongyrchol ag ef yn ystod ein gwiriad. Efallai y byddwn hefyd yn rhoi gwybod iddo ein bod wedi dechrau gwiriad. Ni fyddwn yn rhoi manylion y gwiriad i'ch cynrychiolydd oni bai eich bod wedi ein hawdurdodi i gysylltu ag ef ynglŷn â'r trethi dan sylw. Mae gwybodaeth am sut y gallwch awdurdodi cynrychiolydd ar dudalen 4 o'r daflen wybodaeth hon.

Byddwn yn gofyn i chi roi gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau a allai fod o gymorth i ni.

Os nad ydych yn sicr pam yr ydym yn gofyn am rywbeth, mae croeso i chi ofyn i ni a byddwn yn egluro pam. Os na allwch wneud yr hyn rydym yn gofyn amdano, neu os ydych o'r farn nad yw rywbeth rydym wedi gofyn amdano'n rhesymol neu'n berthnasol i'r gwiriad, rhowch wybod i ni. Byddwn yn ystyried eich rhesymau'n ofalus, ac os byddwn yn dal i fod o'r farn bod ei angen arnom, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar unrhyw adeg yn ystod ein gwiriad, rhowch wybod i ni.

## Defnyddio deunydd cod agored yn ystod gwiriad cydymffurfio

Gall CThEM wyllo, monitro, cofnodi a chadw data'r rhyngwrwyd, sydd ar gael i bawb. Gelwir hwn yn ddeunydd 'cod agored', ac mae'n cynnwys adroddiadau newyddion, gwefannau'r rhyngwrwyd, cofnodion Tŷ'r Cwmnïau a'r Gofrestrfa Dir, blogiau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol lle nad oes unrhyw osodiadau preifatrwydd wedi'u defnyddio.

---

## Y manteision o'n helpu ni gyda gwiriad

Gall ein helpu gyda'n gwiriad fod o fudd i chi. Bydd yn ein galluogi i gwblhau'r gwiriad cyn gynted â phosibl ac yn lleihau unrhyw anghyfleustra a all achosi i chi.

Efallai na fyddwn yn dod o hyd i unrhyw beth sydd o'i le ar y Ffurflen Dreth neu'r ddogfen yr ydym yn ei gwirio. Fodd bynnag, os oes rywbeth o'i le, bydd ein helpu gyda'n gwiriad yn gostwng swm unrhyw gosb y gallwn ei chodi.

Os byddwn yn dod o hyd i rywbeth sydd o'i le, byddwn yn cydweithio â chi i unioni pethau. Hefyd, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw dreth ychwanegol a llog 'taliad hwyr' sy'n ddyledus, yn ogystal ag unrhyw gosb y gallwn ei chodi.

Gallwch ostwng swm unrhyw gosb drwy ein cynorthwyo drwy gydol ein gwiriad. 'Ansawdd y datgeliad' yw'r enw a roddir ar y broses hon, neu 'dweud, helpu a rhoi'.

Rydym yn mesur ansawdd y datgeliad drwy ystyried:

- faint yr ydych yn dweud wrthym am yr hyn sydd o'i le
- faint o help a gawn gennych er mwyn mynd at wraidd yr hyn sydd o'i le
- faint o gofnodion yr ydych yn eu rhoi i ni

Os byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth neu ddogfennau, ac nad ydych yn darparu'r rhain pan fyddwn yn gofyn amdanynt, gall hyn effeithio ar faint y byddwn yn gostwng unrhyw gosb.

---

## **Sut i fod yn gymwys i gael y gostyngiad mwyaf posibl ar gyfer y gosb os oes rhywbeth o'i le**

Os ydych yn gwybod neu'n amau bod rhywbeth o'i le, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i ni am bopeth yr ydych yn ei wybod sydd o'i le cyn gynted ag y byddwn yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi dechrau gwiriad
- gweithio gyda ni i gyfrifo'r swm cywir o dreth

Os ydym wedi dod o hyd i rywbeth sydd o'i le, ac nad oeddech yn gwybod amdano, mae'n rhaid:

- eich bod wedi rhoi cymaint o help ag yr oedd ei angen arnom hyd hynny
- i chi roi'r holl fanylion i ni cyn gynted ag y byddwn yn rhoi gwybod i chi fod rhywbeth o'i le. Bydd hyn yn cynnwys gadael i ni weld unrhyw gofnodion ychwanegol sydd eu hangen arnom, a'n helpu ni i gyfrifo'r swm cywir o dreth

Byddwn yn gostwng y gosb i'r swm isaf posibl os ydym yn cytuno eich bod wedi gwneud popeth o fewn eich gallu i'n helpu.

Pan fyddwn yn ystyried ansawdd y datgeliad, byddwn yn cymryd i ystyriaeth pa mor hir y mae wedi ei gymryd cyn i chi roi gwybod i ni am yr anghywirdeb. Os ydych wedi cymryd cryn amser (fel arfer 3 blynedd) i gywiro'r anghywirdeb neu i'w ddatgelu, byddwn fel arfer yn cyfyngu ar swm y gostyngiad a roddir am ddatgelu.

Byddwn yn cyfyngu ystod y gosb o 10 pwynt canrannol uwchben yr isafswm i adlewyrchu'r amser a dreuliodd, cyn cyfrifo'r gostyngiadau ar gyfer dweud, helpu a rhoi.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gosbau a gostyngiadau yn ein taflenni gwybodaeth. Ewch i [www.gov.uk/guidance/arweiniad-a-thaflenni-gwybodaeth-cthem](http://www.gov.uk/guidance/arweiniad-a-thaflenni-gwybodaeth-cthem) a chwiliwch am 'Gwiriadau cydymffurfio'.

O dan rai amgylchiadau, gallwn gyhoeddi manylion pobl sydd wedi cael eu materion treth yn anghywir yn fwriadol, yn ogystal â chodi cosb arnynt. Ni allwn gyhoeddi eu manylion os yw'r gosb yn cael ei gostwng i'r swm isaf posibl. Mae rhagor o wybodaeth am hyn isod.

---

## **Beth os oes angen rhagor o amser arnoch i wneud rhywbeth yr ydym wedi gofyn i chi ei wneud**

Os oes angen rhagor o amser arnoch i wneud rhywbeth yr ydym wedi gofyn i chi'i wneud, rhowch wybod i ni. Os ydym o'r farn ei bod yn rhesymol gwneud hynny, byddwn yn rhoi rhagor o amser i chi. Gallwch hefyd ofyn i ni ohirio'r gwiriad os oes gennych reswm da, er enghraifft os ydych yn ddifrifol wael neu mae rhywun agos atoch wedi marw.

---

## **Beth os ydych o'r farn y dylem atal y gwiriad?**

Os ydych o'r farn y dylem atal y gwiriad, rhowch wybod i ni pam. Os nad ydym yn cytuno, mewn rhai achosion gallwch ofyn i'r tribiwnlys annibynnol sy'n ymdrin â materion treth benderfynu a ddylem atal y gwiriad.

---

## **Beth sy'n digwydd os oes rhywbeth o'i le?**

Os oes rhywbeth o'i le, byddwn yn egluro pam ac yn cydweithio â chi i unioni pethau. Pan fo'n berthnasol, byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi sut i atal hyn rhag digwydd eto. Os oes arian yn ddyledus i ni, byddwn yn rhoi gwybod i chi sut i dalu. Hefyd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu llog ac unrhyw gosb a godwn. Os oes arnom arian i chi, fel arfer byddwn yn eich ad-dalu neu'n credydu eich cyfrif. Mewn rhai achosion, byddwn yn talu llog i chi hefyd.

---

## Yr hyn sy'n digwydd os ydych wedi gwneud rhywbeth o'i le yn fwriadol

Mae'n bosibl y gwnawn gynnal ymchwiliad troseddol gyda'r bwriad o'ch erlyn, os byddwch yn gwneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth i ni gan wybod ei bod yn anwir, p'un ai ar lafar neu ar bapur
- cam-gyfleu eich rhwymedigaeth treth yn anonest, neu'n hawlio taliadau nad oes gennych yr hawl iddynt

### Rheoli Diffygdalwyr Difrifol

Os ydych wedi cael eich materion treth yn anghywir yn fwriadol, efallai y bydd angen i ni fonitro'ch materion treth yn fanylach.

Mae gennym raglen monitro fanylach o'r enw 'Rheoli Diffygdalwyr Difrifol'. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn nhaflen wybodaeth CC/FS14, *Managing Serious Defaulters*. Ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk) a chwilio am 'CC/FS14'.

### Cyhoeddi manylion diffygdalwyr bwriadol

O dan rai amgylchiadau, efallai y byddwn yn cyhoeddi'ch manylion os ydych wedi cael eich materion treth yn anghywir yn fwriadol. Ni allwn gyhoeddi'ch manylion os ydych yn gymwys i gael y gostyngiad mwyaf posibl ar gyfer y gosb. Mae rhagor o wybodaeth yn nhaflen wybodaeth CC/FS13, 'Cyhoeddi manylion diffygdalwyr bwriadol'. Ewch i [www.gov.uk/arweiniad-a-thaflenni-gwybodaeth-cthem](http://www.gov.uk/arweiniad-a-thaflenni-gwybodaeth-cthem) ac edrych am 'CC/FS13' o dan y pennawd 'Gwiriadau cydymffurfio'.

---

## Beth sy'n digwydd ar ddiwedd gwiriad?

Byddwn yn gorffen ein gwiriad drwy anfon un neu fwy o 'hysbysiadau o benderfyniad' atoch. Gall hysbysiad o benderfyniad fod yn:

- asesiad neu ddiwygiad i asesiad
- hysbysiad o gosb os oes cosb yn ddyledus
- llythyr yn nodi beth yw'r sefyllfa derfynol

---

## Beth fydd yn digwydd os na allwch dalu'r hyn sydd arnoch?

Gallwn eich helpu os ydych yn meddwl y bydd gennych drafferthion talu. Ffoniwch y llinell gymorth ar gyfer taliadau ar **0300 053 4863**. Fel arall, ewch i [www.gov.uk/difficulties-paying-hmrc](http://www.gov.uk/difficulties-paying-hmrc)

---

## Yr hyn i'w wneud os anghytunwch

Os nad ydych yn cytuno â rhywbeth, dylech roi gwybod i ni.

Os byddwn yn gwneud penderfyniad y gallwch apelio yn ei erbyn, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio'r penderfyniad a rhoi gwybod i chi beth i'w wneud os ydych yn anghytuno. Fel arfer, bydd gennych 3 opsiwn. Cyn pen 30 diwrnod, gallwch wneud y canlynol:

- anfon gwybodaeth newydd atom a gofyn i ni ei chymryd i ystyriaeth
- cael eich achos wedi'i adolygu gan swyddog CThEM na fu'n ymwneud â'r mater
- trefnu bod tribiwnlys annibynnol yn gwrandao ar eich apêl ac yn dod i benderfyniad ar y mater

Pa un bynnag a ddewiswch, mae'n bosibl y gallwch hefyd ofyn i un o swyddogion arbenigol CThEM weithredu fel hwylusydd diduedd er mwyn helpu i ddatrys yr anghydfod. Gelwir y broses hon yn 'Ddull Amgen o Ddatrys Anghydfod' (*Alternative Dispute Resolution*, neu ADR).

Dim ond ar gyfer anghydfodau sy'n ymwneud â rhai o'r trethi a'r meysydd eraill rydym yn eu gweinyddu y mae ADR ar gael.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi a yw ADR ar gael ar gyfer y mater sy'n destun yr anghydfod.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

- HMRC1, 'Penderfyniadau Cyllid a Thollau EM – beth i'w wneud os anghytunwch', ar gyfer apelïadau ac adolygiadau
- CC/FS21, *Alternative Dispute Resolution*, ar gyfer y Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod

Ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk) a chwilio am 'HMRC1' a 'CC/FS21'

---

## Eich prif hawliau a dyletswyddau

Mae gennych y canlynol:

- yr hawl i gael eich cynrychioli – gallwch benodi unrhyw un i weithredu ar eich rhan. Mae hyn yn cynnwys ymgynghorwyr proffesiynol, ffrindiau neu berthnasau
- yr hawl i ofyn cyngor eich ymgynghorydd – byddwn yn caniatáu amser rhesymol i chi wneud hynny
- dyletswydd i sicrhau bod pethau'n iawn – hyd yn oed os oes gennych ymgynghorydd, mae'n rhaid i chi gymryd gofal rhesymol o hyd er mwyn sicrhau bod unrhyw Ffurflenni Treth, dogfennau neu fanylion eraill a anfonir atom ar eich rhan yn gywir

Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwylwn gennych chi. Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/eichsiarter](http://www.gov.uk/eichsiarter)

---

## Eich hawliau pan fyddwn yn ystyried codi cosbau

Os oes rhywbeth o'i le, ac rydym yn ystyried codi cosbau, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhoi hawliau penodol i chi pan fyddwn yn ystyried cosbau. Mae manylion llawn yr hawliau hyn i'w gweld yn nhaflen wybodaeth CC/FS9, 'Y Ddeddf Hawliau Dynol a chosbau'. Ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk) a chwilio am 'CC/FS9'.

---

## Awdurdodi cynrychiolydd

Gallwch awdurdodi rhywun i ddelio â ni ar eich rhan. Mae hyn yn cynnwys ymgynghorwyr treth proffesiynol, ffrindiau neu berthnasau. Gallant ddelio â ni ar gyfer gwiriad cydymffurfio yn unig, neu ar sail fwy parhaol ar gyfer eich materion treth o ddydd i ddydd.

Os ydych am awdurdodi ymgynghorydd treth proffesiynol, bydd yn rhoi ffurflen i chi i'w llenwi a'i hanfon atom. Os ydych am awdurdodi rhywun heblaw ymgynghorydd treth proffesiynol, bydd yn rhaid i chi ysgrifennu atom a rhoi gwybod i ni pwy yr ydych am ei awdurdodi, a'r materion yr ydych am iddo ddelio â nhw ar eich rhan.

---

## Mae'r daflen wybodaeth hon yn ymwneud â gwiriadau cydymffurfio i unrhyw un o'r canlynol:

Ardoll Agregau	Treth Dir y Tollau Stamp	Toll Peiriannau Hapchwarae
Ardoll Brentisiaethau**	Treth Dirlenwi	Treth Premiwm Yswiriant
Ardoll Newid yn yr Hinsawdd	Treth Enillion Cyfalaf	Treth Refeniw Petroliwm
Cynllun y Diwydiant Adeiladu	Treth Etifeddiant	Treth Tollau Stamp Wrth Gefn
Talu Wrth Ennill (TWE)	Treth Flynyddol ar Anheddau wedi'u Hamgáu	Yswiriant Gwladol Dosbarthiadau 1, 1A* a 4
TAW	Treth Gorfforaeth	
Treth Cyflogres Banc	Treth Incwm	

\*Ar gyfer Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A, mae'r daflen wybodaeth hon ond yn berthnasol i ddatganiadau P11D(b) ar gyfer y blynyddoedd treth a ddechreuodd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010.

\*\*Ar gyfer yr Ardoll Brentisiaethau, mae'r daflen wybodaeth hon ond yn berthnasol i Ffurflenni Treth ar gyfer y blynyddoedd treth a ddechreuodd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017.

---

## Rhagor o wybodaeth

Mae ein siarter Gwybodaeth Personol yn nodi'r safonau y gallwch eu disgwyl gennym ni pan fyddwn yn gofyn am wybodaeth amdanoch, neu'n ei chadw, ewch i [www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/about/personal-information-charter](http://www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/about/personal-information-charter)

### Cwsmeriaid ag anghenion penodol

Os gall eich iechyd neu amgylchiadau personol ei gwneud yn anodd i chi ddelio â'r gwiriad hwn, rhowch wybod er mwyn i ni allu'ch helpu yn y ffordd fwyaf priodol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/dealing-hmrc-additional-needs](http://www.gov.uk/dealing-hmrc-additional-needs)

### **Peidiwch â rhoi'r gorau i anfon Ffurflenni Treth nac i wneud taliadau.**

Yn ystod y gwiriad cydymffurfio, parhewch i anfon Ffurflenni Treth a gwneud taliadau pan fyddant yn ddyledus.

### **Budd-daliadau, ffioedd, grantiau a chredydau treth**

Os ydych yn cael unrhyw fudd-daliadau, ffioedd neu grantiau sy'n seiliedig ar eich incwm, ac mae eich incwm yn newid o ganlyniad i'r gwiriad hwn, bydd yn rhaid i chi roi gwybod i'r sefydliad sy'n eich talu. Os ydych yn cael credydau treth, ac mae eich incwm yn newid o ganlyniad i'r gwiriad hwn, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Credydau Treth. Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900 neu ysgrifennu, gan nodi 'newid mewn amgylchiadau' ar yr amlen, at:

Cyllid a Thollau EM  
Swyddfa Credydau Treth  
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM  
Tŷ Thedford,  
Stryd Fawr,  
PORTHMADOG  
LL49 9BF

### **Os ydych yn anfodlon ar ein gwasanaeth**

Os ydych yn anfodlon ar ein gwasanaeth, rhowch wybod i'r person y buoch yn delio ag ef neu'r swyddfa y buoch yn delio â hi.

Bydd yn ceisio unioni pethau. Os byddwch yn dal i fod yn anfodlon, bydd yn rhoi gwybod i chi sut i gwyno.